BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

# Cofnod 12/06/24

Busnes@LlandrilloMenai, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor LL57 4HJ

| **Aelodau yn bresennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)<br>Dirprwy Gadeirydd | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Carwyn Jones (CJ) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dylan Williams (DW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibbard (DG) | Cyngor Gwynedd |
| Dafydd Gwynne (DG) | Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Lyndsey Campbell-Williams (LC-W) | Medrwn Môn |
| Euros Jones (EJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Tracey Williams (TW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Andrew Edwards (AE) | Prifysgol Bangor |
| Glyn Jones (GJ) | Llywodraeth Cymru |
| Charlotte Makanga (CM) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Yn mynychu:** | |
| Sandra Thomas (ST) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Gwenan Pritchard (GP) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Nia Williams (NW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Caryl Lewis (CL) | Rhwydwaith Cyd-Gynhyrchu Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd | Grŵp Llandrillo Menai |

| | |
|---|---|
| Cyng. Llinos Medi (LlM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Catrin Thomas (CT) | Gwasanaeth Prawf |
| Llinos Davies (LlD) | Heddlu Gogledd Cymru |
| Emyr Williams (EW) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Geraint Owen (GO) | Cyngor Gwynedd |
| Gillian Jones (GJ) | Gwasanaeth Prawf |

**Pwyntiau Gweithredu**

1. **Drafft o'r Adroddiad Blynyddol - CL** i ddarparu enghreifftiau o mesurau /allbynnau/esiamplau ansoddol – **CL**
2. **Drafft o'r Adroddiad Blynyddol -** Awgrymwyd cysylltu gyda gwaith y Byrddau eraill ar draws y Gogledd ac amlygu hyn yn yr adroddiad. – **Tîm Cefnogi**
3. **Drafft o'r Cynllun Cyflawni / Gweithredu -** Nodwyd pwysigrwydd datgan pa wahaniaeth yr ydym am ei wneud o fewn y ddogfen. Awgrymwyd gellid gwneud hyn drwy ychwanegu colofn i ddatgan hyn. – **Tîm Cefnogi**
4. **Pwysa Iach / Byw yn Iach:** DW yn awyddus i gynnwys sefydliadau eraill sydd gyda safleoedd yn Llangefni yn y cynllun llwybrau llesol. Tîm Cefnogi a DW i gael sgwrs bellach er mwyn cyflawni hyn. - **Tîm Cefnogi /DW**
5. **Pwysa Iach / Byw yn Iach:** Gofynnwyd i bob sefydliad gadarnhau i ba raddau maent wedi ymgorffori'r nodau a credoau i'w gwaith (gyda tystiolaeth) a diweddaru yr ymrwymiadau am y 6 mis nesa - **Pawb**
6. **Pwysa Iach / Byw yn Iach:** Cytunwyd i sefydlu is-grŵp – **Tîm Cefnogi** i drefnu.
7. **Pwysa Iach / Byw yn Iach:** Gofynnwyd am gael derbyn data lefel sirol ar Pwysau Iach – **Dafydd Gwynne** i drefnu.
8. **Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwyieithog -**Bwriad i ofyn i holl sefydliadau y Byrddau ar draws y Gogledd i fod yn ymrwymo i ddefnyddio'r canllaw, a gosod datganiad ar eu safleoedd swyddi yn datgan eu ymrwymiad i'r iaith Gymraeg. **Tim Cefnogi** i gydlynu.
9. **Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwyieithog -** Os oes prosiect mae'r Bwrdd yn awyddus i'r grŵp ganolbwyntio arni dylid codi hynny – **Pawb**.
10. **Siarter Teithio Llesol –** Oes modd dod i drefniant desg boeth rhwng sefydliadau sy'n aelodau? **Tîm Cefnogi** i ymchwilio.
11. **Siarter Teithio Llesol -** Gwahodd Ken Skates fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth i gyfarfod nesaf y Bwrdd i drafod yr Siarter ac y Trydydd bont - **Tîm Cefnogi** i drefnu.
12. **Newid Hinsawdd -** Cytunwyd i'r argymhellion o greu asesiad risg ar y cyd, gan hefyd nodi bod angen cefnogaeth gan y Rhwydwaith cyd-gynhyrchu – **CL** i drafod gyda cydweithwyr.

**Cofnod o'r drafodaeth**

| Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1. | Cafwyd gyfle i rwydweithio o flaen llaw y cyfarfod. | | |
| 2. | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a croesawyd pawb i'r cyfarfod. Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd Aled Jones-Griffith. Nodwyd ymddeoliad Emyr Williams (APCE) a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol. | | |
| 3. | **Cofnodion (i'w cymeradwyo)**<br>Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion ar gyfer cyfarfod 14/03/24 a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau. | | |
| 4. | **Cynllun Llesiant 2023-2028**<br><u>Drafft o'r Adroddiad Blynyddol 2023-24</u><br><br>Cafwyd trafodaeth am yr adroddiad drafft. Cytunwyd bod angen edrych ymhellach ar beth yw'r effaith a pa wahaniaeth yr ydym wedi ei wneud? Nodwyd byddai defnyddio tabl fel atodiad yn cyfleu hyn yn well e.e. dyma rydym ni wedi ei wneud, a dyma yw'r bwriad. **CL** i ddarparu enghreifftiau o mesurau /allbynnau/esiamplau ansoddol.<br><br>Nodwyd bod angen geirio yn fwy penodol ar gyfer y rhan yr iaith Gymraeg.<br><br>Awgrymwyd cysylltu gyda gwaith y Byrddau eraill ar draws y Gogledd ac amlygu hyn yn yr adroddiad. – **Tîm Cefnogi**<br><br>Nodwyd bod y diagram / cynllun gweledol sydd wedi ei gynnwys yn cyfleu'r neges yn effeithiol.<br><br>Cytunwyd i oedi cyflwyno'r adroddiad ym Mhwyllgor Sgrwtini Cyngor Sir Ynys Môn yr wythnos nesaf hyd nes bydd yr addasiadau wedi eu cwblhau.<br><br><u>Drafft o'r Cynllun Cyflawni / Gweithredu</u><br>Cafwyd drafodaeth am y drafft o'r cynllun cyflawni/ gweithredu. Nodwyd ei fod yn agos iawn i fod yn fersiwn terfynol.<br>Nodwyd pwysigrwydd datgan pa wahaniaeth yr ydym am ei wneud o fewn y ddogfen. Awgrymwyd gellid gwneud hyn drwy ychwanegu colofn i ddatgan hyn. – **Tîm Cefnogi** | **CL**<br><br>**Tîm Cefnogi**<br><br>**Tîm Cefnogi** | **Cgbm**<br><br>**Cgbm**<br><br>**cgbm** |
| 5. | **Pwysa Iach / Byw yn Iach: Diweddariad ac adborth o'r dasg osodwyd yng nghyfarfod 14/3/24**<br><br>Cafwyd gyflwyniad gan Dafydd Gwynne a roddodd drosolwg o ymrwymiadau'r sefydliadau oedd wedi ymateb i'r dasg, gan gadarnhau y credoau a nodau, ymrwymiadau 6 mis nesaf ac yr effaith crychdonnol. Cafwyd ddiweddariadau ychwanegol gan y sefydliadau oedd yn bresennol. Nodwyd bod pedwar sefydliad wedi ymgymryd â'r treial coffi ar hap ac y pedwar wedi gweld budd o'r sgyrsiau.<br><br>Nododd DW ei fod yn awyddus i gynnwys y sefydliadau sydd gyda safleoedd yn Llangefni yn y cynllun llwybrau llesol sydd ganddynt a cynigwyd rhannu adnodd TG y Cyngor i gyflawni hyn. Tîm Cefnogi a DW i gael sgwrs bellach er mwyn cyflawni hyn.<br><br>Nododd Dafydd Gibbard ei fod yn awyddus addasu yr allbwn ymrwymiadau 6 mis Cyngor Gwynedd. Yn sgil y sylwad gofynnwyd i bob | **Tîm Cefnogi /DW** | **Cgbm** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sefydliad gadarnhau i ba raddau maent wedi ymgorffori'r nodau a credoau i'w gwaith (gyda tystiolaeth) a diweddaru yr ymrwymiadau am y 6 mis nesa - **Pawb**<br><br>Holodd GJ i ba raddau byddai'r gwaith hyn yn digwydd beth bynnag. Dywedodd TW eu bod wedi gweld yr effaith crychdonnol a bod pethau newydd yn cael eu creu yn sgil trafodaethau sy'n digwydd trwy waith y Bwrdd.<br><br>Trafodwyd y Papur Llywodraethu oedd wedi ei ddarparu gyda papurau'r cyfarfod. Nodwyd bod y papur yn gofyn:<br>• Bod BGC Gwynedd a Môn yn sefydlu is-grŵp i gefnogi'r gwaith cydlynu a chyflawni manwl yn erbyn uchelgeisiau DSGBI ac, wrth wneud hynny, ceisio darparu adroddiad cryno er gwybodaeth i Grŵp Partneriaeth Strategol DSGBI Rhanbarthol (amlder / manylion i'w gytuno).<br>• Bod Grŵp Partneriaeth Strategol DSGBI Rhanbarthol yn ymrwymo i ddarparu adroddiad diweddaru ar weithgarwch rhanbarthol i BGC Gwynedd a Môn (amlder / manylion i'w cytuno).<br><br>Cytunwyd i sefydlu is-grŵp – **Tîm Cefnogi** i drefnu.<br><br>Nodwyd byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth/adroddiad gan y Grŵp Rhanbarthol Pwysau Iach, ac ein bod yn rhannu ein gwaith ni gyda nhw. Nodwyd bod hefyd angen gwybod be mae pob bocs/grŵp yn ei wneud yn y cynllun siart lif oedd wedi ei ddarparu – **Dafydd Gwynne** i gydlynu ymateb.<br><br>Gofynnwyd am gael derbyn data lefel sirol ar Pwysau Iach – **Dafydd Gwynne** i drefnu. | **Pawb**<br><br>**Tîm Cefnogi**<br><br>**Dafydd Gwynne**<br><br>**Dafydd Gwynne** | **Cgbm**<br><br>**Cgbm**<br><br>**cgbm** |
| 6. | **Diweddariadau is-grŵpiau / grwpiau Tasg a Gorffen**<br><br>**<u>Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwyieithog</u>**<br><br>Nodwyd bod yr is-grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar gwblhau'r prosiect gweithlu dwyieithog. Iaith Cyf sydd wedi bod yn arwain ar y gwaith. Nodwyd bod y prosiect wedi bod yn ymchwilio i pam mae sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith, ac a yw'r ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain.<br><br>Rhoddwyd diweddariad o ran y cydweithio a ymgysylltu gyda sefydliadau rhanbarthol. Nodwyd bod yr adroddiad terfynol wedi ei gwblhau ac yn y broses o gael ei chyfieithu. Nodwyd bydd 'Canllaw Camau Recriwtio' ar gael fel atodiad i'r adroddiad a crynodeb gweithredol a fydd yn cael ei gosod ar wefan y Bwrdd. Bwriad y Camau Recriwtio yw bod yn declyn ymarferol i unrhyw un sydd yn paratoi i hysbysebu swyddi o fewn sefydliad. Nodwyd y bwriad i ofyn i holl sefydliadau y Byrddau ar draws y Gogledd i fod yn ymrwymo i ddefnyddio'r canllaw, a gosod datganiad ar | **Tîm Cefnogi** | **Cgbm** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eu safleoedd swyddi yn datgan eu ymrwymiad i'r iaith Gymraeg. **Tim Cefnogi** i drefnu cydlynu hyn.<br><br>Atgoffodd GP yr aelodau bod yr is-grŵp iaith yn cael ei arwain o ran tasgau gan y Bwrdd, a felly os oes prosiect mae'r Bwrdd yn awyddus i'r grŵp ganolbwyntio arni dylid codi hynny – **Pawb**. Nodwyd bod yr is-grŵp hefyd yn ymchwilio ac ystyried prosiectau posib.<br><br>Nodwyd bod bwriad cyflwyno cais i'r arian rhanbarth i fod yn gwerthuso'r prosiect a'i allbynnau.<br><br><br>**<u>Siarter Teithio Llesol</u>**<br><br>Cafwyd diweddariad ar waith yr is-grŵp gan AE. Nodwyd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub bellach wedi arwyddo'r Siarter yn ffurfiol a bod Cyngor Gwynedd wedi trafod yn eu cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth yr wythnos hon, gan gadarnhau eu bod yn gefnogol mewn egwyddor. Dywedwyd bod sefydliadau eraill sydd ar yr is-grŵp i gyd yn gefnogol. Nodwyd dymuniad yr is-grŵp i'r Aelodau sydd am gydweithio ar y Siarter fod yn symud gyda'i gilydd i arwyddo, ac bosib bod cyfle yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi i wneud hyn. Cytunwyd bod hyn yn rhywbeth i'w gefnogi.<br><br>Ychwanegodd GP bod yr is-grŵp yn gofyn os fyddai modd dod i drefniant desg boeth rhwng sefydliadau sy'n aelodau? H.y os oes gan swyddog sy'n aelod o'r Bwrdd gyfarfod yn lleol i leoliad swyddfeydd un o'r sefydliadau a fyddai modd dod i drefniant 'desg boeth'- **Tim Cefnogi** i ymchwilio.<br><br>Trafodwyd y posibilrwydd o wahodd Ken Skates fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth i gyfarfod nesaf y Bwrdd i drafod yr Siarter ac y Trydydd bont a pryder bod cyllidebau tymor byr yn golygu and oes modd ymateb yn hirdymor i sialensau lleol. **Tîm Cefnogi** i drefnu llythyru ar y cyd gyda DW.<br><br>Holwyd am y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarth – nododd DW ei ddealltwriaeth mai cynllun sydd yn megis cychwyn yw hwn.<br><br>**<u>Newid Hinsawdd</u>**<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan EJ ar baratoi Asesiad Risg Newid Hinsawdd fel BGC. Amlygwyd bod nifer o bethau eisoes yn digwydd yn y maes. Nodwyd bod yr asesiad risg angen ei gwblhau oherwydd gofyniad yn y Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Yr argymhellion oedd:<br>• Cynnig bod BGC Gwynedd a Môn yn cydweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol at yr agenda yma. (Mae'r un cynnig yn | **Pawb**<br><br>**Tîm Cefnogi**<br><br>**Tîm cefnogi** | **18/9/24**<br><br>**Asap**<br><br>**asap** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael ei gyflwyno i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru yr wythnos yma)<br>• Cytuno ar ddull yn rhanbarthol. I gyfoethogi'r ymdrech hon, bydd y BGCau yn gwneud cais am gyllid i gomisiynu hwylusydd dwyieithog all gydlynu'r agenda yma ar draws y rhanbarth, gan ddefnyddio grant rhanbarthol BGC Gogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru.<br>• Adrodd yn ôl yn mis Medi.<br><br>Cytunwyd i'r argymhellion, gan hefyd nodi bod angen cefnogaeth gan y Rhwydwaith cyd-gynhyrchu – **CL** i drafod gyda cydweithwyr.<br><br>**<u>Prosiect Niwbwrch</u>**<br><br>Nodwyd bod adroddiad o'r digwyddiad gynhaliwyd fis Mawrth wedi ei gylchredeg gyda'r papurau. Mae Dogfen Strategol yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru. Eglurwyd bod grŵp tasg yn edrych ar weithredu'r posibiliadau tymor byr ac yn parhau i fonitro cynnydd ac ymgysylltu gyda'r gymuned. Nodwyd bod y cyfarfod nesaf ar 27 Mehefin. Ychwanegwyd bod arian ar gael gan y Cynghrair yn lleol ar gyfer rhai o'r datrysiadau tymor byr. | **CL** | **Cgbm** |
| 7. | **Llunio Lleoedd**<br><br>Nodwyd bod hwn yn gynllun cenedlaethol sydd wedi ei lansio yn ystod mis Mai gyda digwyddiad yng Nghaerdydd hefyd wedi ei gynnal. Mae'n seiliedig ar y dull system gyfan ac yn cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br>Mae'r rhaglen Llunio Lleoedd wedi sefydlu tri grŵp dysgu cenedlaethol a fydd pob un yn gweithio ar thema wahanol am gyfnod o ddwy flynedd ac maent yn seiliedig ar gynlluniau llesiant presennol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>- Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>- Tlodi ac Anghydraddoldebau<br>- Llesiant y gymdogaeth<br>Eglurwyd bydd Byrddau'r Gogledd yn cydweithio i ganolbwyntio ar y maes argyfwng hinsawdd a natur. | | |
| 8. | Dyddiad cyfarfodydd nesaf:<br>18 Medi,<br>9 Rhagfyr | | |